CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 8. RHIF 12.] RHAGFYR, 1908. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

AR EDYN FFYDD.
Y DIWEDDAR CADBEN W. DAVIES, RHYDOWENFACH
(*Gyda Darlun.*)
JOHN MILTON.
"BYWYD IESU" GAN RENAN.
SOSIALIAETH.
NAWN SUL YN CNWCYRHWRDD.
LLYTHYR AT DEULU CNWCYRHWRDD.
CREFYDD I "FEIBION LLAFUR."
PRIODASAU. MARWGOFION.
MANION AC HANESION.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

SIXPENNY EDITIONS

OF

Allen Raine's Novels

May be obtained of

J. D. LEWIS, GOMERIAN PRESS, LLANDYSSUL.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1908. [CYF. VIII. RHIF 12.

AR EDYN FFYDD.

HEDFAN, hedfan, mae yr awel
Dros y gwenith gwyn ;
Ac mae'r haul fel cysgod angel
Ar y bryn.

Ond rhaid marw ddydd cynhauaf,
A rhoi'r cryman lawr ;
Rhaid i ddyn, pan fo brysuraf,
Gwrdd â'i awr.

Dydd yr angladd ! O mor dywyll !
Sabbath Angau yw :
'Heddyw rhaid i'r gwenith sefyll,'
Medd y byw.

Rhaid i'r beddrod gael ei ddiwr-
Yn wythnosau'r byd ; [nod
Fe geir awr gyfleus i drallod
Unrhyw bryd.

Erys, er i'r gweithiwr farw,
Ei lafurwaith ef ;
Son am dano mae pob erw
Wrth y nef.

Aed ei elor heibio'n araf ;
Dan yr amwisg du :
Ond fe ddywed ei gynhauaf—
'Gweithiwr fu.'

Os yw'r llaw fu'n hau y gwenith,
Yn yr amdo'n gaeth,
D'wed y d'wysen dan ei bendith
Beth a wnaeth.

Os ei gryman geir yn segur
Heddyw dan y tô,
Gwelir eto ddyddiau prysur
Yn y fro.

Y mae'r byd yn fwy na'r beddrod,
Dyn yn fwy na'i oes ;
Ni châ gwaith y gweithiwr ddarfod
Gyda'i loes.

"Angladd Diwrnod Cynhauaf." ELFED.

Y DIWEDDAR CADBEN DAVIES, RHYDOWENFACH, LLANDYSSUL.

ERGYD caled i gynulleidfa yw colli ei ffyddloniaid, a diwrnod tywyll yn ei hanes yw diwrnod claddu ei gweithwyr. Mae dyled yr eglwysi i ffyddloniaid yn fwy nag i neb arall, a'r elfen brydferthaf, y gallu grymusaf yn hanes eglwysi ein gwlad yw ffyddlondeb. Braidd nas gellir dweyd mai ffyddlondeb yw enaid eglwys—ffyddlondeb yw ei chynhaliaeth, a phe pallai ffyddlondeb fe ddiflanai yr eglwys o'r tir. Ffyddlondeb sy'n rhoi gwerth ar bob dawn ac elfen arall, a hi sydd yn eu galw i chwareu eu rhan yn ngwaith yr eglwys. Hi sy'n dweyd wrth gyfoeth, Cerdda, ac efe a â, ac wrth dalent, Tyred, a hi a ddaw. Heb ffyddlondeb nid yw cyfoeth, gwybodaeth a thalent ond elfenau mud a meirw yn mhrofiad yr eglwysi.

Beth oedd yr elfen amlycaf, y rinwedd lanaf yn mywydau ein tadau duwiolfrydig, ein mamau ymroddgar—y merthyron fuont feirw i brynu a chyfoethogi ein breintiau a'n hetifeddiaeth ni? Onid ffyddlondeb? Ffyddlondeb yn unig fedra wynebu croes, a ffyddloniaid sy'n aros pan mae pawb eraill yn cefnu. Arnynt hwy mae'r eglwysi yn ymddibynu yn y nos a'r gauaf, ac nid yw adfyd ac erledigaeth ond yn cyfoethogi eu zel a'u gweithgarwch hwy. Diwrnod du a chymylog yw diwrnod eu colli.

Yr oedd dydd Mawrth, Tachwedd 17eg, yn ddydd profedigaeth yn hanes cynulleidfa ac Ysgol Sul Llwynrhydowen, canys yn gynar y boreu hwnw ehododd ysbryd Cadben William Davies, Rhydowenfach, un o'r ffyddloniaid penaf, at yr Hwn a'i rhoes, ac achosodd y newydd trist deimlad o alar dwys ac o golled fawr trwy yr holl ardal. Ar y boreu uchod, er yn dioddef oddiwrth effeithiau anwyd, bwriadai fyned ar neges i Llanbedr; yr oedd y cerbyd yn barod ac yntau wedi ymdrwsio i'r siwrne, ond wedi myned ychydig latheni dros gareg y drws gyda'r amcan o gychwyn daeth teimlad o anhwylusdod drosto, a throdd yn ei ol i geisio ymorffwys y teimlad i ffwrdd. Nid cynt y cyrhaeddodd y trothwy nag y syrthiodd mewn llewyg. Daeth ato ei hun drachefn, a chafwyd amryw eiriau oddiwrtho, ond yn mhen rhyw ugain munyd bu farw wedi gweled tri ugain a phymtheg o flynyddoedd ar y ddaear. Bu farw'n sydyn, bu farw ar ganol ei waith, bu farw yn ieuanc er ei fod yn hen.

Er ys rhai blynyddoedd amlwg oedd yr arwyddion fod amser ei ymddatodiad yn neshau, ond er byrhau y cam. pallu y clyw, crymu y war, daliai ei ysbryd yn fywiog ac ieuanc, ac yr oedd y gweithiwr yn fyw iawn ynddo,

Y dydd Gwener canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Capelyfadfa, gerllaw y capel newydd ag sydd i aros am oesau yn gofgolofn i'w gariad at yr achos a chynulleidfa'r lle. Yr oedd ei angladd yn un eithriadol o luosog, dywedir fod y cerbydau yn rhifo pedwar ugain, ac yr oedd braidd holl ardaloedd canolbarth y

sir yn cael eu cynrychioli yn y cynhebrwng. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Mr. E. O. Jenkins; yn y capel aeth Mr. Lewis Williams, Rhydygwin, drwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth, a chafwyd anerchiadau yn datgan teyrnged o barch gan E. O. Jenkins; J. P. Kane, Dowlais; Simon Jones, B.A., Abertawe; T. A. Thomas,



Y Diweddar Cadben W. Davies.

Llandyssul; D. Evans, Cribyn; R. C. Jones, Llanbedr, a John Davies, Alltyplaca, a gorphenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan J. Davies. Gadawodd frawd oedranus, a llu o berthynasau a chyfeillion i alaru eu colled.

Mab ydoedd yr ymadawedig i David a Mary Anne Davies, Wigwen, ger Llanerchaeron, a ganwyd ef Ionawr 7fed, 1833. Morwr ydoedd wrth ei alwedigaeth, a dilynodd hi am ddeng mlynedd a'r hugain.

Yn 1867 priododd â Hannah Thomas, Siop, Rhydowen, yr hon a'i rhagflaenodd Hydref 1900. Wedi ffarwelio a'r môr gwnaeth ei gartref yn Llanarth; oddiyno ymfudodd yn 1882 i Brown Hill, ger Cross Inn, Ceinewydd, ac yn 1889 ymfudododd drachefn—y tro hwn i Rhydowenfach. Pan yn ieuanc mynychai yr addoliad yn Ciliau; o Llanarth a Brown Hill, cyfeiriai ei gamrau yn gyson tua Chapelyfadfa, a rhoddodd flynyddoedd olaf ei fywyd i wasanaethu cynulleidfa ac Ysgol Sul Llwynrhydowen. Tystiolaeth y tair cynulleidfa yma ydyw "Ffyddlon oedd efe."

Bu'n ffyddlon hyd y diwedd; afiechyd yn unig fedrai ei rwystro i bresenoli ei hun yn y cwrdd a'r ysgol; ac nid mynychwr yn unig ydoedd, ond gweithiwr hefyd, gweithiwr egniol, gweithiwr o'i fodd, gweithiwr nas gall yr eglwys a'r Ysgol Sul lai na theimlo yn ddwys ei golli. Yr oedd yr elfen addolgar yn effro iawn yndo, ac yr oedd yn nodedig am ei yspryd defosiynol, a hawdd oedd deall wrth symudiadau ei wyneb a threigliad ei ddagrau fod swn canu emyn ac apel ambell frawddeg yn cyffwrdd a thannau tyner yn ei fynwes.

Nid oedd cylch ei weithgarwch yn gyfyngedig i'r eglwysi a nodwyd. Am yspaid hir bu'n Gadeirydd pwyllgor Cymanfa Ganu Undodiaid Ceredigion, ac unwaith bu'n Llywydd y Gymanfa. Gwasanaethodd y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn ffyddlon am flynyddoedd; efe oedd ei Llywydd 1907 a 1908. Colled i'r enwad oedd ei golli.

Rhyddfrydwr ydoedd mewn gwleidyddiaeth; am chwech mlynedd gwasanaethodd ei sir gyda diwydrwydd fel cynrychiolydd Llanllwchhaiarn, ac am bum mlynedd fel cynrychiolydd rhanbarth deheuol Llandyssul ar ei chynghor. Yma eto ffyddlon oedd efe ac egniol fel gweithiwr. Prawf o hyn ydyw y ffaith iddo gael ei ethol ar bob pwyllgor perthynol i'r cynghor—anrhydedd a osodir ar nifer fechan yn unig.

Mae bellach wedi myn'd; trwy ei symudiad ef collodd yr enwad aelod defnyddiol, collodd y sir weithiwr ymroddgar, collodd yr ardal gymydog cymwynasgar; collodd y gynulleidfa a'r Ysgol Sul un o'i cholofnau. Mae wedi myn'd, ac eto credwn ei fod yn aros; nid oes bedd i ddaioni. "Er wedi marw yn llefaru eto."

"Mae'r cymwynaswr yn ei fedd
A'r cymwynasau eto'n fyw."

Bydded i Dad ein bywyd ein dyddanu, a bydded i'r meddwl am ffyddlondeb a diwydrwydd ein hen gyfaill ein symbylu ni sydd ar ol i fywyd o ddefnyddioldeb a gweithgarwch.

Llwynrhydowen. E. O. J.

JOHN MILTON.

Ganwyd Rhagfyr 9, 1608; bu farw Tachwedd 8, 1674.

Three poets in three distant ages born,
Greece, Italy, and England did adorn,
The first in loftiness of thought surpassed,
The next in majesty, in both the last ;
The force of Nature could no further go,
To make the third she joined the other two.—*Dryden.*

Sylwer fod

TRI CHANMLWYDDIANT

genedigaeth John Milton yn nesu, bardd mwyaf ei oes, ac un nas gellir ei gyfrif yn ail i neb ond Shakespeare, —yn ngeiriau Arglwydd Macaulay— "bardd, gwleidyddwr, athronydd, gogoniant llenyddiaeth Seisnig, *champion* a merthyr rhyddid." Deilliai o linach ddioddefodd lawer o helbul. Fforfedwyd stad un o honynt yn amser Rhyfel y Rhosynau. Darfu i'w dadcu—John Milton—yr hwn oedd geidwad fforest Shotover, a phabydd selog, amddifadu ei fab o'i etifeddiaeth am iddo gefnu ar grefydd ei dadau ; a gorfu i'w dad a amddifadwyd felly—John oedd yntau hefyd —gymeryd at swydd ysgrifenydd er mwyn bywioliaeth. Yr oedd i'w dad gryn enwogrwydd fel cerddor medrus. Fe ddywedir fod llawer o'i gynyrchion yn aros hyd heddyw. Priododd foneddes o deulu Cymreig, o'r hon y cafodd ddau fab, John (y bardd) a Christopher, a dwy ferch.

Cafodd y bardd

ADDYSG

oreu eu oes, gan y bwriadai ei dad ef i fod yn offeiriad. Pan oedd newydd droi ar ei 15eg oed danfonwyd ef i brifysgol Caergrawnt, a dywedir ei fod y pryd hwnw yn feistr ardderchog ar y iaith Ladin, yn yr hon yr ysgrifenai lawer o farddoniaeth lithrig. Tua'r amser hyn, neu cyn ei fod yn 16eg, cyfansoddodd aralliad Saesneg o Psalm 114 a 136, ac yn y rhai hyn, er mor ifanc oedd, dangosodd y gallai daro tinc newydd yn y llinell farddonol. Gweler cais at Gymreigio rhai o'r penillion yn "Emynau ac Odlau" rhif 40,—

Dewch yn nghyd a molwn Dduw,
Dewch yn llon, can's da iawn yw ;
Byth yn ffyddlawn a di drai
Mae'i drugaredd E'n parhau, &c.

Fel ei dadau cyfarfu a llawer o helbulon trist yn ystod ei fywyd. Cyn iddo dreulio ei flwyddyn gyntaf yn y coleg, aeth rhywbeth rhyngddo ag un o'i athrawon, a gorfu iddo fyned adref. Ni wyddys yn sicr beth oedd, ond yr ydys wedi casglu, nad beth oedd, na theimlodd efe ddim cywilydd o'i blegid. Ni fu'n hir cyn cael cenad i ddychwelyd, a throsglwyddwyd ef i ofal athraw arall. Bu'n llwyddianus i raddio'n B.A. ac wedi hyny yn M.A. heb golli amser.

Ar derfyn ei amser, pan yn

YMADAEL A CHAERGRAWNT,

yn 1632, teimlai nas gallai gwympo i fewn a dymuniad ei dad a chymeryd urddau eglwysig. Nid oedd yr un tuedd ynddo chwaith at y gyfraith. Dan yr amgylchiadau ni fedr efe ddim arall. Ni ellid cyfleu rheolau cyffredin bywyd at John Milton. Yr oedd gan John gydwybod, ac yr oedd hono yn effro. Nid pawb ddealla hyn. Er yn fore yr oedd wedi gosod

NOD UCHEL

o'i flaen a chadwai'r nod hono mewn golwg o hyd. Fel hyn y darllenwn yn "Paradise Regained" 612, I.—

When I was yet a child, no childish play
To me was pleasing, all my mind was set
Serious to learn and know, and thence to do
What might be public good ; myself I thought
Born to that end, born to promote all truth,
All righteous things ; therefore above my years
The law of God I read and found it sweet,
Made it my whole delight, and in it grew
To such perfection, &c.

Credwn y cawn yma y *Keynote* a rydd eglurhad ar lawer a ymddengys yn dywyll a dyrys yn ei hanes. Gan nad oedd un bwlch agored iddo fyned trwyddo ar y pryd, fe ddychwel adref ac erys yno bum mlynedd. Mae ei syched am wybodaeth yn anniwall a threulia lawer o'i amser yn darllen. Aiff trwy'r holl glasuron Groeg a Lladin ac ysgrifena lawer o farddoniaeth Ladin, a rhai o ddarnau tlysaf ei farddoniaeth Seisneg, megys L'Allegro, Il Penseroso, &c. Yn 1637 mae'n colli ei fam, a thybia ei gyfeillion fod iddo gyfleusdra ardderchog yn awr i

WELED Y BYD

ac ymgydnabyddu'n bersonol a rhai agweddau o hono nad yw'n bosibl iddo gartref na thrwy help llyfrau. Tal ymweliad a Ffrainc, Switzerland, yr Eidal, &c., a cha'r cyfleustra i storio'i feddwl â thrysorau brofasant o werth anhraethol yn ol llaw. Galwodd heibio i rai o brif enwogion y dydd, megys Hugo Grotius, Galileo, yr hwn oedd newydd ei ryddhau o garchar, lle'r oedd wedi ei anfon am ryfygu dywedyd, yn groes i'r Ysgrythyr, ac yn wrthwynebol i brofiadau amlwg y byd, mai'r ddaear sy'n troi o amgylch i'r haul ac nid yr haul o amgylch i'r ddaear.

Yn y cyfamser cyrhaedda'r newydd ef fod

CYFFRO CHWYLDROADOL

a thrafferthion blin wedi tori allan yn ei fam wlad anwyl, yr hyn a bair i'w deimlad gwladgarol gynhesu ac iddo yntau frysio adref ar unwaith. Yr oedd yr addysg Piwritanaidd a dderbyniodd yn more ei oes yn awr yn dechreu dwyn ffrwyth, a llosgai ei galon gan awydd angerddol i brofi ei hunan yn wladgarwr Cristionogol. Tybiai ei fod yn gweled arwyddion amser gwell, toriad gwawr bore rhyddid a chwareu teg i bob dosparth o bobl. Fel Anghydffurfiwr ei hunan cymer ddyddordeb yn naturiol yn symudiadau gwleidyddol ei oes, a chofier pa fath oes oedd ei oes ef—ar ei hyd,—oes erledigaeth y Stuartiaid, oes llywodraeth Oliver Cromwell a'r siomedigaethau ar ol hyny, oes troad y ddwy fil offeiriaid allan o'u bywioliaethau. Ie, oes flin ddigon brofodd hi iddo ef lawer pryd ; ond gan y credai yn gryf bob amser yn ngwerth anrhaethol

MANTEISION RHYDDID,

wele ef yn awr, heb feddwl am y canlyniadau, yn ymdaflu i ganol y berw mawr, gyda'r penderfyniad diysgog i wneuthur ei oreu o'i blaid. Nid oes un anturiaeth mwy peryglus na'r cais i gario llusern gwirionedd i'r cilfachau tywyll a llygredig hyny lle nad oes un pelydr o oleuni erioed wedi dysgleirio o'r blaen. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth ar ol dod adref oedd ysgrifenu a chyhoeddi ei lyfr ardderchog — Areopagitica — yn pleidio rhyddid meddwl, barn, a llafar. Dyna anadl einioes John Milton—rhyddid i addoli yn ol llais cydwybod, rhyddid i geisio a phroffesu a lledaenu gwirionedd. Nid oedd i'w gael y pryd hwnw. Casbeth ei enaid oedd gormes, yr yspryd trahaus a amlygid yn y geiriau—*Divine right*

of Kings, A king can do no wrong! Ewyllys y brenin yn bob peth, pa un ai iawn ai aniawn, cam neu gymhwys fyddai! Gwnaeth ei ran i ddwyn y fath syniad ffol i anfri. Gweithiodd yn ddyfal ddydd a nos i'r pwrpas hwnw. Rhybuddiwyd ef gan ei feddygon o'r perygl i'w lygaid (ni fuont erioed yn gryf) pan oedd yn ysgrifenu ei "*Defence of the People*"; ond nid oedd dim yn tycio. Anmharodd ei iechyd ac aberthodd ei olygon. Yn un o'i Sonedau, dywed fel hyn

"Yet I argue not
Against heaven's hand or will, nor bate a jot
Of heart or hope, but still bear up and steer
Right onward."

Ond yr ydym yn cyflymu gormod. Awn gam yn ol. Yn ngeiriau Huw Morus, "di-ben-wyd y Brenin"* (Ionawr 30, 1649), a daeth Cromwell i'r ffrynt a chyn hir gwneir Milton yn

YSGRIFENYDD TRAMOR

Lladin — "*Secretary for Foreign Tongues*" y gelwir ef yn llyfrau'r Gynghorfa. Gellir mesur y gwerth osodai y rhai mewn awdurdod ar ei wasanaeth oddiwrth y ffaith fod y Prif Ysgrifenydd Seisnig yn derbyn cyflog o £730, tra na chai'r Ysgrifenydd Lladin ond £288 13s. 6c. Am y tal distadl hwn dysgwylid iddo roi ei holl amser at wasanaeth y llywodraeth. Er gwaethaf y dibrisio ymddangosiadol hwn ar ei alluoedd dihafal, prawf Milton ei hun yn *power* yn y wladwriaeth, a galluoga Cromwell i wneuthur Prydain yn wrthrych o barch ac o ofn trwy Ewrop gyfan. Saif yn awr ar binacl uwchaf ei ogoniant fel gwleidyddwr;

Yn ddisymwth daw

TRO AR FYD

eto, a chyfle i Milton i ddangos o ba ddefnydd yw. Gorfodir ef i ddrachtio yn ddwfn o ddyfroedd chwerwon Mara. Iago ab Dewi sy'n dywedyd

Mai'r ysgol oreu yn yr hollfyd
I ddysgu dyn yw ysgol adfyd.

Nad beth am hyny, y mae holl obeithion dysglaer ein harwr yn diflanu, a siomedigaeth drymaf ei oes yn syrthio i'w ran. Dyma rai o'r elfenau:—Cromwell yn marw Medi 3, 1658; Richard, ei fab, yn profi'n analluog i ddal awenau'r llywodraeth; terfyn y weriniaeth, a'r freniniaeth yn cael ei hadferu yn mherson

SIARL YR AIL—

y gwaelaf a'r bryntaf o frenhinoedd; yr achos mawr i'r hwn yr oedd Milton wedi cyflwyno ei holl enaid yn troi yn fethiant, ac yntau ei hun, *champion* delfrydau aruchel, yn myned yn wrthrych gwawd i'r breninwyr buddugoliaethns; rhyddid dan draed, gormes ar yr orsedd, a phob aflendid yn uchel ei ben ac yn blaguro. Dygir collfarniad yn ei erbyn ef a nifer eraill o bleidwyr Cromwell. Arbedir bywyd yr hen "rebel," fel y cyfrifid ef, ac ystyrir i'r brenin ymddwyn yn haelfrydig iawn wrth wneuthur hyny—ei oed, feallai, ei dlodi a'i ddellni, yr hwn oedd farnedigaeth oddiwrth Dduw, meddai ei elynion, yn hawlio rhyw fath o gydymdeimlad — dirmygus ddigon, wrth gwrs, a'i ysgrifell, nid oes achos ofni hono mwy.

Ond os ar lawr o ran pethau allanol, os wedi ei amddifadu o'i olygon, os wedi ei siomi yn ei obeithion, y mae'r meddwl heb ei orchfygu; os yw un drws wedi ei gau, y mae un

---

* Pleidwyr ffyrnig i'r brenin oedd Huw Morus ac amlafrif bonwyr Cymru'r oes hono. Dyma alarnad Huw,—

Dydd blin, dydd cethin, dydd cas—dydd diriaid
Oedd dori pen Siarlas,
Dydd du i rai, dydd di-ras,
Oera d'wrnod i'r deyrnas.

arall yn agored iddo—led y pen. Gall ddywedyd gyda Phaul, "Yn cael ein herlid, ond heb ein llwyr adael, yn cael ein bwrw i lawr, eithr heb ein difetha," &c. Ymneilldua oddiwrth fywyd cyhoeddus, i fyw yn dlawd ac anghofiedig, a thry ei feddwl at yr anturiaeth ardderchocaf y dichon deall dyn ymgymeryd ag ef,

"Fel gallwyf fi hyd eitha'r testyn mawr,
Amddiffyn glân Ragluniaeth fythol nef,
A chyfiawnhau ffyrdd Iôr i ddynol ryw."

Yr oedd er bore bywyd wedi cydio yn y testun—

"Coll Gwynfa"

—ac yn awr yn ei neillduedd, dyna sydd yn llanw ei feddwl. Diddana ei hun â meddyliau mawrion, creadigaethau ysplenydd, a chyda ffydd a hyder proffwyd daw i deimlo, nad pa faint yr esgeulusid ef gan ei oes ei hun, fod dydd i ddod pan fyddai ei waith hwn yn rhwymyn undeb ag ysprydoedd mwy diragfarn y dyfodol. Am ei fod yn gwbl ddall bu'n rhaid iddo wrth help ei wraig a'i ddwy ferch i osod yr oll ar bapur. Derbyniad digon oer gafodd ar y cyfan, gan fod rhagfarn cryf yn ei erbyn—rhagfarn gwleidyddol a chrefyddol.

Bydd y darllenydd eisoes wedi casglu fod

Ysbryd Plaid

yn rhedeg yn uchel yn amser Milton—un o'r cyfnodau mwyaf nodedig feallai yn hanes y byd—Ormuzd ac Ahriman, rhyddid a gormes, rheswm a rhagfarn mewn ymryson marwol a'u gilydd. Fel gweriniaethwr ac Anghydffurfiwr, ni allai Milton lai na chymeryd rhan amlwg yn yr ornest, fel nad yw ryfedd fod rhagfarn rhai yn gryf yn ei erbyn hyd yn oed ar faes diniwed barddoniaeth. Gwahaniaetha'r ceidwadwr a'r rhyddfrydwr, yr eglwyswyr a'r anghydffurfiwr, yn fawr yn nghylch gwerth "Coll Gwynfa." Gwnaeth D. Johnson, Tori rhonc, ei oreu i'w ddibrisio, tra'r oedd Addison yn rhoi gair uchel iddo. "*Admirable poem*," oedd i Macaulay; ac i Dr. Channing, "*Perhaps the noblest monument of human genius*." Oherwydd annoethineb ei gyfeillion a malais ei elynion tebyg na chafodd bardd erioed ymdrechu yn erbyn amgylchiadau mwy anffafriol. Credai ei hun ei fod wedi ei eni oes yn rhy ddiweddar.

Mae'n amlwg nad oedd

Crefydd Milton

ddim yn uniongred yn ol gofynion ei oes. Math o Undodydd hen ffasiwn, neu Ariad oedd. Nid oes son am Drindod yn Ngholl Gwynfa, er fod mwy o sail i drefn y cadw yna nag a geir yn y Beibl. Daliai wrth Oruchafiaeth Duw Dad, mai bod crëedig a dibynol oedd y mab, cyntafanedig pob creadur, ac yn llaw ei Dad, Crewr pob peth arall. Nis gellir ei hawlio'n briodol gan un sect, eto gallwn lawenhau fod un mor bur o galon, mor ddyrchafol ei amgyffredion, mor nerthol ei ddeall, i'w gyfrif o nifer y rhai a ddaliant ac a amddiffynant y ffydd mai un Duw sydd, un Goruchaf, un gwrthddrych priodol addoliad. Gwelai Milton y gwirionedd hwn yn glir ac amddiffynodd ef yn y llyfr diweddaf a ysgrifenodd.

Y mae ein gofod yn cyfyngu arnom, a therfynwn gyda dyfyniad allan o draethawd godidog Arglwydd Macaulay: "Y mae golwg ar ei lyfrau, swn ei enw yn felus genym. Ei feddyliau . . . . . maent yn nerthol nid yn unig i roi pleser, ond i ddyrchafu ac i buro. Ni chenfigenwn wrth y dyn fedr efrydu bywyd a darllen ysgrifeniadau'r bardd a'r gwladgarwr mawr, heb deimlo awydd i efelychu, nid yn wir y gweithiau ardderchog â'r rhai y mae wedi cyfoethogi ein llenyddiaeth, ond y zel gyda'r hwn y llafuriodd er lles y cyhoedd, y gwroldeb gyda'r hwn y dioddefodd bob trallod personol, y diystyrwch gyda'r hwn yr edrychodd

i lawr ar demtasiynau a pheryglon, y casineb marwol a deimlodd at bob gormes a dallbleidiaeth, a'r ffyddlondeb diysgog amlygodd bob amser tuag at ei wlad a'i enw da ei hun."

S.N.S.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD XI.

Iesu'n pregethu ger y Llyn.

Rhai felly ffurfient y cynulliad bychan a ymwasgodd oddiamgylch Iesu ar lan llyn Tiberias. Cynrychiolid uchelwyr y wlad gan gasglwr trethi a gwraig i un o swyddogion Herod. Yr oedd y gweddill yn gynwysedig o bysgotwyr a phobl gyffredin y wlad. Yr oedd eu hanwybodaeth yn ddwfn, eu dealltwriaeth yn fychan, a chredent mewn ysprydion a drychiolaethau. Nid oedd yr elfen leiaf o ddiwylliant Groeg wedi treiddio i mewn i'r cylch sanctaidd hwn. Yn wir nid oedd gwybodaeth Iddewig wedi cyrhaedd llawer o honynt, ond yr oeddynt yn llawn teimladaeth wresog ac ewyllys da. Yr oedd hinsawdd hyfryd Galilea yn gwneuthur bodolaeth y pysgotwyr gonest hyn yn fywyd o swyn didor. Yr oedd eu dyddiau syml, dedwydd, hyfryd, a'r llyn yn eu tawel siglo, neu'r lan yn eu suo i gwsg yn yr hwyr, yn ragfynegiad perffaith i deyrnas Dduw ar y ddaear.

Nid ydym yn medru sylweddoli y bywyd a dreulir fel hyn wyneb yn wyneb a'r nefoedd, y serch tyner a chryf at natur a dyf drwy fyw fel hyn yn agos i anian, breuddwydion nosweithiau hyny a fwynheir o dan belydrau'r ser, o dan gromen o lesni diderfyn ei ddyfnder.

Ar gyfryw noswaith y bu Jacob, a'i ben yn gorphwys ar gareg, yn gweled yn y ser obaith hiliogaeth afrifed, a'r ysgol ryfedd ar hyd yr hon yr oedd angelion Duw yn myned ac yn dyfod rhwng nefoedd a daear.

Yn amser Iesu nid oedd y nef wedi ei chau na'r ddaear wedi oeri. Agorai'r cwmwl o hyd uwch Mab y Dyn; yr oedd angylion yn esgyn ac yn disgyn uwch ei ben; yr oedd gweledigaethau teyrnas Dduw yn mhob man; oblegyd yr oedd dyn yn eu dwyn yn ei galon. Yr oedd yr eneidiau syml hyn yn medru myfyrio ar y greadigaeth yn ei ffurf fwyaf delfrydol; yr oedd y byd efallai yn dadleni ei gyfrinach i gydwybod ddwyfol oleu y plant dedwydd hyn, y rhai, yn rhinwedd purdeb eu calon, a haeddant ryw ddydd weled Duw.

Yr oedd yr Iesu yn byw gyda'i ddisgyblion bron yn barhaus yn yr awyr agored. Weithiau esgynai i long, a dysgai y dorf a ymgasglai ato ar y lan. Bryd arall eisteddai ar y mynyddau a gylchynant y llyn, lle mae'r awyr mor bur a'r gorwel mor loew. Felly yr arweinia y cylch bychan hwn fywyd crwydrol a dedwydd, dan gasglu athrawiaethau'r meistr ar eu blodeuad cyntaf. Weithiau codai rhyw amheuaeth syml, rhyw gwestiwn tyner, di-golyn; rhoddai Iesu ben ar y gwrthwynebiad gyda gwên neu edrychiad. Ar bob llaw, yn y cwmwl crwydredig, yn yr egin yn tarddu, yn yr ŷd yn melynu, gwelent arwyddion fod y deyrnas bron a dyfod; credent eu bod ar fin gweled Duw, a bod yn feistri y byd; trôi eu dagrau yn llawenydd; yr oedd yn ddyfodiad diddanwch cyffredinol ar y ddaear.

'Gwyn eu byd," meddai'r meistr, "y tylodion yn yr yspryd : canys eiddynt yw teyrnas nefoedd. Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru : canys hwy a ddiddenir. Gwyn eu byd y rhai addfwyn : canys hwy a etifeddant y ddaear. Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder : canys hwy a ddiwellir. Gwyn eu byd y rhai trugarogion : canys hwy a gânt drugaredd. Gwyn eu byd y rhai pur o galon : canys hwy a welant Dduw. Gwyn eu byd y tangnefeddwyr : canys hwy a elwir yn blant i Dduw. Gwyn eu byd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder : canys eiddynt yw teyrnas nefoedd."

Yr oedd ei bregethau yn dyner ac yn felus, yn llawn o natur ac o arogl y meusydd. Carai'r blodau a thynnai wersi o'r mwyaf swynol oddiwrthynt. Yr oedd adar y nef, y môr, y mynyddau, chwareuon y plant, yr oll yn eu tro yn dod i mewn i'w ddysgeidiaeth. Nid oedd ei arddull ddim o'r cyfnod Groegaidd, eithr ymdebygai yn llawer mwy i'r dammegwyr Hebreig, ac uwchlaw dim i wirebau y dysgawdwyr Iddewaidd, ei gydoeswyr, tebyg i'r hyn a ddarllenwn yn y *Pirké Aboth.* Ni ddadblygai ei athrawiaethau yn mhell, ond ffurfiai hwynt yn fath o osodiadau yn null y Coran, y rhai, wedi eu gosod wrth eu gilydd, a aethant i ffurfio y darnau hirion a ysgrifenwyd gan Matthew. Nid oedd dim yn clymu y gosodiadau hyn y naill wrth y llall, oddigerth yr ysbrydoliaeth a anadlai drwyddynt, ac a roddai fath o unoliaeth iddynt. Uwchlaw dim, yn y ddameg y rhagorai y meistr. Nid oedd dim mewn Iddewaeth wedi rhoddi cynllun hollol iddo o'r ffurf hwn ar addysgu. Efe a'i creodd. Y mae'n wir y ceir yn llyfrau Buddha ddamegion yn gywir o'r un natur ag eiddo'r efengylau, ond anhawdd credu fod dylanwad y dwyrain pell i'w gael ynddynt. Y mae yspryd o dynerwch a dyfnder teimlad a geir yn moreu Cristionogaeth fel yn nechreuad Buddhistiaeth yn ddigon efallai i egluro y tebygolrwydd hwn.

Difaterwch hollol am y bywyd allanol ac am oferedd danteithion a gwisgoedd gwychion, y rhai a dybir angenrheidiol yn ein gwledydd trist ni yn y gorllewin, oedd canlyniad y bywyd syml a thyner a dreulid gan bobl Galilea.

Y mae hinsawdd oer, drwy beri i ddyn fod mewn ymdrech barhaus a'r allanol, yn gwneud iddo roddi llawer o bwys ar fod yn gyfforddus, a gwerth ar fywyd moethus. O'r ochr arall, y gwledydd hyny sydd yn gofyn lleiaf o angenrheidiau, yw gwledydd delfrydaeth a barddas. Y mae angenrheidiau bywyd yno yn llawer llai pwysig na'r pleser o fyw. Y mae addurno'r ty yn beth hollol afraid ; oblegyd nid yw'r teulu ynddo ond cyn lleied ag sydd bosibl. Cyfrifid digonedd bwydydd breision gwledydd o hinsawdd oerach gan y bobl hyn yn drwm ac anhyfryd. Ac am ddillad gorwych, pa le y ceir gwell gwisgoedd nag a rodd Duw i'r ddaear ac i adar y nef? Ymddengys gwaith, mewn gwlad o'r hinsawdd hon, yn beth diddefnydd ; nid yw'r hyn a rydd yn ateb i'r hyn a gostia. Y mae anifeiliaid y maes wedi eu gwisgo yn well na'r dyn mwyaf cyfoethog, ac nid ŷnt hwy yn gwneud dim.

Y mae'r dirmyg hwn, pan nad yw diogi wrth ei wraidd, o wasanaeth mawr i ddyrchafu eneidiau, ac ysbrydolodd Iesu a dywediadau tra swynol. "Na thrysorwch i chwi," meddai ef, "drysorau ar y ddaear, lle mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle mae lladron yn cloddio trwodd ac yn lladrata. Eithr trysorwch i chwi drysorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia lladron trwodd, ac nis lladratânt. Canys lle mae eich trysor, yno y mae eich calon hefyd. . . . . Ni ddichon neb wasanaethu dau arglwydd : canys naill ai efe a gasa y naill, ac a gâr y llall ; ai efe a ymlyn wrth y naill, ac a a esgeulusa y llall. Ni ellwch wasanaethu Duw a mammon. Am hyny meddaf i chwi, Na ofelwch am eich bywyd, pa beth a fwyttâoch, neu pa

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR ❀ YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGWYR:

Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL, A SARNICOL, COUNTY SCHOOL, ABERTILLERY.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL 8.
1908.

LLANDYSSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNHWYSIAD.

Adolygiadau, 43, 144, 191.
Allen Raine, 194.
Anwybodaeth Offeiriadol, 159.
Ar Edyn Ffydd, 1, 25, 49, 73, 97, 121, 145, 169, 193, 217, 241, 265.

Ball, John, 41.
Bedd Agored, Y, 6.
Beibl, Yr elfen ddynol yn y, 170.
Breintiau Dynes, 87.

Cadwedigaeth drwy Iesu yn unig, 4.
Campbell, Y Parch. R. J., 2.
Carpenter, Dr. ar y weinidogaeth, 113.
Celt, Yspryd y, 155, 204.
Colofn y Cynghor, 182.
Cranc, Llythyr y, 228, 250.
Cred Undodaidd, 74.
Crefydd i Feibion Llafur, 281.
Crefyddau a Chrefydd, 220.
Cristionogaeth Undodaidd, 74.
Cyfarfodydd Blynyddol, Y, 184.
Cyfarfodydd Chwarterol, Y, 139, 260.
Cymanfa Ganu Ceredigion, 161.
Cymanfa Ganu Morganwg, 160.
Cymro, Neges y, 9, 35.
Cymro, Y, Ol-olwg, Ar-olwg, Rhag-olwg, 127.
Cystadleuaeth Banos, 235.
CONGL YR AWEN :—
Ar y Trothwy, 1.
Ar fedd y Parch. T. Thomas, Y.H., 56, 91, 116.
Barn Cymro am Gymru, 141.
Boreu Sabbath yn nhy Dduw, 97.
Bywyd, 21.
Cerdda mlaen, 22.
Deigryn ar fedd Mrs. Griffiths, Birdlip, 92.
Duw gadwo'r bobol, 169.
Englynion Coffa i'r diweddar Thomas Jones, Cwrtnewydd, 92.
Er Cof am Mrs. Jones, Abercefel, 162.
Fy hen gyfeillion, 44.
Hynyna gredaf i, 21.
Pwy yw Duw, 162.
Salmau Coffa, 56, 91.
Y Dderwen ar y Bryn, 115.
Ymladd a bod yn ddyn, 140
Ymweliad a'r Hen Lwybrau, 56.
Yr Hen a'r Newydd, 20.

Davies, Y Diweddar Cadben W., 266.
Davies, Y Parch. J. Park, Cyfarfod Ordeinio, 111.
Dennis, Y Parch. E. R., Cyfarfod Ordeinio, 233.
Duw a'i Fyd, 60.
Duwinyddiaeth, Yr Hen a'r Newydd mewn, 13.
Dydd Barn, 67.

Genesis, 151.
Gohebiaethau, 65, 159,
Gwahoddiad, 134.
Gymdeithas Undodaidd Gymreig, Y, 139, 168, 184, 216, 260.

Hwnt i'r Synwyrau, 30.

Iolo Morganwg, Gweddi, 229.
Israel, Hanes, 225.

James, Y diweddar Herbert, 163.
Jones, Y diweddar James Lloyd, 28.
Jones, Y diweddar John Lloyd, 186.
Jones, Dadorchuddio Cerflun y Parch. R. J., 61.
Jones, Y Parch. T. Lloyd, 79.

Llythyr at Deulu Cnwcyrhwrdd, 279.

Manion ac Hanesion, 23, 46, 70, 94, 120, 143, 166, 188, 214, 239, 263, 284.
Marwgofion, 22, 45, 69, 93, 117, 142, 164, 187, 213, 237, 261, 283.
Materolaeth, A etyb, 148.
Milton, John, 269.

Nawn Sul yn Cnwcyrhwrdd, 277.
Nodion y Mis, 2, 26, 98, 122, 146, 242.

Oddiar y Tŵr, 75, 198, 243.

Pecock, Reginald, 222.
Priodasau, 116, 141, 187, 213, 237, 283.

Renan, Bywyd Iesu gan, 16, 57, 81, 104, 130, 174, 200, 223, 273.

Sosialiaeth, 256, 275.
Swedenborg, Emanuel Von, 150.

Thomas, Y diweddar Barch. Thomas, 49, 50, 52, 56, 91.
Titus, Titus, Pencader, 114.

Van, Adsain yr holi gyda'r, 246.
Van Undodaidd, Y, 66, 179, 181, 207, 209, 254.

Undodiaid, Beth maent yn gredu, 100.

Ymgom ar aelwyd Cnwcyrhwrdd, 252.
YMOFYNYDD, YR, 65.
Ymson y Myfyriwr, 39, 63, 109, 124, 153, 172, 218.
Ysgol Haf Rhydychen, 230.
Ysgol Sul, Arholiad yr, 135.

beth a yfoch ; neu am eich corph, pa beth a wisgoch. Onid yw y bywyd yn fwy na'r bwyd, a'r corph *yn fwy* na'r dillad? Edrychwch ar adar y nefoedd : oblegid nid ydynt yn hau nac yn medi, nac yn cywain i ysgubor iau ; ac y mae eich tad nefol yn eu porthi hwy. Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy? A phwy o honoch, gan ofalu, a ddichon chwanegu un cufydd at ei faintioli? A phaham yr ydych chwi yn gofalu am ddillad? Ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu ; nid ydynt nac yn llafurio nac yn nyddu : Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn. Am hyny os dillada Duw felly lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddyw, ac y fory a fwrir i'r ffwrn, oni *ddillada efe* chwi yn hytrach o lawer, O chwi o ychydig ffydd? Am hyny na ofelwch, gan ddywedyd, Beth a fwyttâwn? neu, Beth a yfwn? neu, A pha beth yr ymddilladwn? (Canys yr holl bethau hyn y mae y Cenhedloedd yn eu ceisio ;) oblegid gŵyr eich Tad nefol fod arnoch eisieu yr holl bethau hyn. Eithr yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg. Na ofelwch gan hyny dros drannoeth : canys trannoeth a ofala am ei bethau ei hun. Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun."

Cafodd y teimlad hwn, oedd yn hanfod yspryd y Galilead, ddylanwad pwysig ar dynged y sect yn amser eu mabandod. Yr oedd yn rheol gan y frawdoliaeth hapus hon, a ddibynai ar y Tad nefol am foddloni eu holl reidiau, i edrych ar ofalon bywyd fel drwg sydd yn distrywio pob hedyn daioni. Bob dydd gofynai i Dduw am fara yforu. I ba ddiben casglu trysorau? Yr oedd teyrnas Dduw yn ymyl. "Gwerthwch yr hyn sydd genych, a rhoddwch elusen," meddai yr athraw. "Gwnewch i chwi byrsau y rhai ni heneiddiant; trysor yn y nefoedd, yr hwn ni dderfydd, *ac ni lygra pryf.*" Beth mwy ffol na phentyru trysorau i etifeddion nas gweli byth?

SOSIALIAETH.

(*Parhad o Rhifyn Tachwedd*).

Gellid ychwanegu fel yma yn ddiddiwedd bron at adroddiad camweddau cymdeithas fel ei gwneir i fyny yn bresenol, ond credaf fod digon wedi ei ddweyd i ddangos fod rhywbeth yn hanfodol allan o le yn ei chyfansoddiad. Yn mhellach, nid yw holl ymdrechion gwladweinwyr Ceidwadol na Rhyddfrydol wedi cael fawr effaith er daioni ar gyflwr y dosbarth gweithiol, yn enwedig y rhai mwyaf diymgeledd o honynt—hyny yw, y rhai na allant wneud fawr os dim drostynt eu hunain. Mewn gair, er fod Rhyddfrydiaeth a Cheidwadaeth mewn rhyw ffordd neu gilydd wedi cael cynyg teg yn y wlad yma er ys dros ddau can' mlynedd maent wedi methu — wedi methu gwneud cyfiawnder rhwng dyn a dyn, wedi methu dwyn egwyddorion Cristionogaeth i weithrediad ymarferol. Ar y goreu nid ydynt ond wedi ceisio iachau effeithiau'r clefyd oddiwrth ba un y dyoddefa cymdeithas gan adael yr achosion heb gyffwrdd a hwynt. Mae'n bryd, ynte, iddynt roi lle i gyfundrefn o well, a'r gyfundrefn well

yma, yn marn yr ysgrifenydd a miliynau eraill, yw Sosialiaeth. Beth yw'r athrawiaeth newydd yma — newydd mewn ystyr, ac nid newydd ychwaith? Dyna ofyna llawer heddyw fel gynt yn amser dechreuad Cristionogaeth. Gadewch i ni gael gwel'd yn gyntaf beth yw ei hegwyddorion sylfaenol; ac yna, efallai, os caniata gofod, y ceisiwn ddangos yn fyr sut i'w rhoi mewn gweithrediad. Rheol neu ddeddf bywyd rhwng dyn a dyn yn yr ystad bresenol o wareiddiad, yn ol Sosialiaeth, ddylasai fod cydweithrediad ac nid cydymryson — gweithio gyda'n gilydd, er lles ein gilydd ac mewn cydgord a chyddealltwriaeth a'n gilydd, ac nid yn erbyn ein gilydd, pob un drosto'i hun yn unig ac fel pe bae am waed pob un arall o'r un grefft neu'r un fasnach ag ef. Yn ol y ffurf yma o gario pethau yn mlaen y cryfaf, y mwyaf cyfrwys ac yn fynych iawn, yn anffodus, y rhai mwyaf diegwyddor yw'r rhai llwyddianus mewn masnach, tra y gwthir y gwanaf, y llai cyfrwys ac yn aml y rhai mwyaf cydwybodol i'r clawdd. "Pob un drosto'i hun a'r oliaid i'r diafol" yw yn rhy aml reol bresenol cymdeithas; eithr egwyddor Sosialiaeth yn hytrach yw "pob un dros bawb a phawb dros bob un." Dewised y darllenydd rhyngddynt. "Ai ceidwad fy mrawd wyf fi," medd Unigoliaeth; "câr dy gymydog fel ti dy hun" (gan feddwl wrth gymydog pwy bynag a ddaw i gyffyrddiad a ti), medd Cymrodoliaeth (neu Sosialiaeth).

Dywedir yn fynych mai amcan Cymrodoliaeth yw gwneud pawb yn gydradd, ac nas gellir byth wneud hyn am ein bod wedi ein cynysgaethu a gwahanol ddoniau a thalentau; gwir ddigon, ond nid yw Sosialiaeth erioed wedi ceisio gwneud pobl yn gydradd yn yr ystyr yma. Gŵyr ei phleidwyr cystal a neb fod hyny yn amhosibl, ond gwyddant hefyd fod yna ystyr yn yr hwn y safwn oll ar yr un tir, a gŵyr y Cristion hyny hefyd os yw yn deilwng o'r enw. Ai ni ddysgwyd ni gan Iesu Grist ein bod oll yn blant i Dduw ac yn chwiorydd a brodyr i'n gilydd, ac ai ni feddylia hyny ein bod oll yn gydradd yn ngolwg Duw ac fod genym un fel y llall hawl i'r un cyfleusderau a'r un breintiau? Dyna feddylia'r Cymrodolwr pan yr hawlia gydraddoldeb cyfleusderau i bawb o ddynol ryw. Braidd y mae eisiau dweyd nad oes gan bawb yr un cyfleusderau yn ein dyddiau ni—genir rhai a llwy aur yn eu penau tra eraill a welant oleu dydd gyntaf yn y gwter—gymdeithasol. Rhoi yr un siawns, yr un chwareu teg i bob plentyn dyn ar y ddaear yw, ynte, egwyddor arall y gyfundrefn newydd. Mam pob cyfoeth ac felly holl gyfoeth y byd yma, medd y Sosialydd, ac nis gwn fod yna neb a wna yn ddifrifol amheu hyny, y *w* adnoddau naturiol y ddaear a'i dad yw llafur neu waith dyn—nid gwaith llaw yn unig eithr gwaith o bob math. Effaith un ar y llall (gyda bendith Duw) a gynyrcha gyfoeth. Gan, felly, fod cymaint hawl gan un a'r llall o honom i adnoddau'r ddaear, am ein bod yn gydradd ger bron Duw, gellid yn naturiol disgwyl mai y rhai weithient fwyaf fyddent mwyaf cyfoethog; ond fel mater o ffaith y gwrthwyneb hollol o hyn sydd fel rheol yn wir—y rhai weithiant fwyaf sydd gyffredin dlotaf, tra y mae llawer o'r rhai na wnant ddim defnyddiol yn werth eu miliynau. Amlwg felly fod rhywbeth yn wreiddiol allan o le yn nghyflwr presenol cymdeithas cyn y gallasai'r fath gamwedd byth ddigwydd. Amlwg fod rhyw ychydig yn cael mwy—anfeiriol fwy, na'u rhan ar draul y llaweroedd. Amcan—un o amcanion, Cymrodoliaeth yw rhoddi terfyn ar hyn, a sicrhau i bawb ffrwyth eu llafur. "Y sawl na weithied na fwytaed chwaith" meddai Paul (onide?), a dywed y Sosialydd Amen gyda difrifoldeb neillduol.

Cynyrchir nwyddau o bob math bron yn awr nid yn gymaint am fod eu hangen ar y wlad (neu ar bobl y wlad), eithr am fod y rhai a'u cynyrchant, neu yn hytrach y rhai achosant iddynt gael eu cynyrchu, yn awyddus i wneud elw o honynt; gwelir hyn yn y ffaith fod y cyfalaf-

wyr ar unwaith yn ceisio gostwng cyflogau eu gweithwyr, ac yn fynych yn eu taflu allan o waith yn rhanol neu yn llwyr pan fydd eu helw afresymol hwy yn dangos tueddiad i fynd ychydig yn llai. Mewn gwrthgyferbyniad i hyn arwyddair Sosialaeth yw, y dylesid gwneud pethau er mwyn eu defnydd, am fod eu heisiau, ac nid gyda'r amcan o wneud elw o honynt. Ymddengys hyn yn ddiameu yn ddelfrydol, ond nid oes dim yn anmhosibl ynddo, ac nid oes un amheuaeth genyf na roddir ef mewn grym yn y wladwriaeth Sosialaidd.

I edrych ar y mater oddiar agwedd arall, nid yw Cymrodoliaeth ond ymdrech ddifrifol i geisio dwyn oddiamgylch y fath amgylchiadau tymhorol fel y gall pawb gael rhyw faint o siawns i roi egwyddorion Crist mewn gweithrediad. Yn nhrafodaethau masnachol y dydd heddyw anmhosibl yw gwneud hyny i'r graddau y dymunid gan lawer. O dan y gyfundrefn newydd bydd cyfleusdra i bawb i fyw'r bywyd uwch—yr hyn nas gellir ddweyd am y gyfundrefn bresenol. Mewn gair, gellir dweyd nad yw Sosialaeth yn ddim mwy na llai nag ymdrech ddwys i ddwyn teyrnas nefoedd oddiamgylch ar y ddaear—i reoli gwladweinyddiaeth, masnach, a holl gysylltiadau dynolryw ac egwyddorion dwyfol yr Iesu. Ac amcenir dwyn hyn oddiamgylch trwy wneud offerynau a pheirianau cynyrchiad, hyny yw, adnoddau naturiol a'r peirianau angenrheidiol i'w gweithio, yn eiddo cyffredinol. Megys ag y mae y wlad yn awr yn berchen ar y llythyrdy, ar ei llongau rhyfel a phethau eraill, megys ag y mae trefydd ar eu *trams* ac yn eu gweithio eu hunain, felly yr amcana Sosialaeth i'r bobl trwy eu gwahanol ffurf o lywodraeth i fod yn berchen ar y tir, y mwnau a'r rheilffyrdd a phobpeth arall angenrheidiol i gynal bywyd dynol ar y ddaear hon, ac i'r pethau yma gael eu gweithio er budd cyffredinol pawb ac nid er budd personol neb. Rhaid yn gyntaf troi y bobl at egwyddorion y gyfundrefn newydd a dangos iddynt eu rhagoriaeth ar yr hen, ac yna ni fydd ond gwaith rhwydd eu rhoi mewn gweithrediad, oblegyd "lle mae'r ewyllys mae'r gallu." Cymer hyn le fwy fwy bob dydd, a sylweddolir felly yn raddol y delfrydau yma hyd yn oed yn awr, a graddol yn debyg fydd cynydd yn hyn fel yn mhob peth ddilyna gwrs naturiol.

X.Y.Z.

NAWN SUL YN CNWCYRHWRDD.

Un dyn am ei thoc yw Mali, ond mae rhywbeth yn dyner ynddi hefyd. "Deio," meddai, pan oeddwn yn tynu y 'Cyfeithiad Diwygiedig' i lawr o'r silff i gael myn'd i'r Ysgol Sul, "aroswch gatre gyda fi heddy. Pum mlynedd i'r prydnawn yma y bu farw Mai fach, a gadewch i ni gael hela awr neu ddwy beth bynag gyda'n gilydd, i gofio am ein hunig blentyn, —yr un anwl, anwl eto."

Yna plygodd ei phen i lawr a thorodd allan i wylo. Es i eistedd ar y sciw yn ei hymyl, ac O! fel 'Myfanwy Fychan' Ceiriog, "'roedd y nghalon i'n mynd." Byth er marwolaeth y los fach, rywfodd neu gilydd yr oedd yr hen dynerwch rhyngom fel pe wedi darfod; y llinyn euraidd gysylltai ein calonau fel pe wedi tori. Mwyach ni wnaem ond slafo o foreu Llun tan nos Sadwrn,

ac nid oes fawr o le i ramant yn hyny.

Ond gweled Mali yn ei dagrau ddygodd *lanw* serch yn ol i'm mynwes wedi'r trai.

Drwy ddrych ei deigryn hiraeth hallt,
Mwy teg y gwelwn hi,
Na'r feinir fwyn fodrwyog wallt,
Gynt ddotiai nghalon i ;
A pheth na wnes ers gwn i pryd—
Rhoes gusan ar ei min :
Y cof am Fai wnadd ddwyn i'n byd
O'r newydd hafaidd hin.

Ym mhen ychydig, cododd Mali, ac wedi iddi dynu rhywbeth allan o shwc ar y seld, clywn hi yn datcloi drâr yn y pen-ucha. Yn y man taenodd ar y bwrdd o'm blaen ei thrysorau,—chwareu-bethau yr un a gollasom.

Nid oedd degan bron yn eu plith nad oedd wedi tori,—ond dyna oedd yn rhoddi gwerth arnynt, gan mai ei dwy law fechan *hi* a'u torodd. Fel y daw cawod ac heulwen ar ol eu gilydd a'r ddydd o Ebrill, felly y wylai ac y gwenai Mali bob yn ail tra yn adrodd manylion hanes prudd neu ddifyr pob un o'r cof-bethau bychain hyn. O ryfedd gariad mam! Os mai anfeidrol fwy na hwn yw cariad mawr y Tad, pa galon nad mewn mwyniant lam wrth deimlo'r sicrwydd cawn ein dwyn ryw ddydd i'r nefol wlad.

Ar ol oedi yn hiraethlon am ysbaid uwch eu pen, ail-osododd Mali ei gemau yn barchus mewn papur sidan yn y drâr,—gemau anwylach, gredaf, i'w chalon na'r sofryns melynion sydd mewn drâr clo arall gerllaw. Yna, gan nad oedd argoel ei bod yn dod yn ol i'r gegin, ês ati i'r pen-ucha. "O Dafydd," meddai wrthyf, "a odych chi'n cofio am dani hi fan hyn, bore y dydd bu hi farw, yn gofyn i ni weddio gyda hi, gan gydio yn bob i law i ni?"

Ar hyny cydiais innau yn llaw Mali, ac heb i un o honom yngan gair yn rhagor, penliniasom yn ymyl y gwely fel y gwnaethom gyda Mai fach bum mlynedd yn ol. A phan yn codi, teimlwn fod y drws drwy yr hwn y cadd ein hanwylyd fynediad i mewn i'r trigfanau dedwydd, eto yn agored i ninau, ac ein bod wedi cael ernes eisoes o'r wlad well. Ie, symudiad Mai o'n plith wnadd droi'r ysbrydol fyd nad oedd i ni ond rhith i fod yn sylwedd drud.

Er mai chwithig genyf oedd colli Ysgol Sul, teimlwn mai moddion grâs i mi fu bod gartref gyda Mali y prydnawn hwn.

Ar ol tê,—a 'does neb fedr neyd tê fel Mali, at y nhâst i, ta beth,—hwyliais i'r banc i roi tro bach am y defaid. Er fod gwynt main ganddi, a hwnw yn cydio hefyd, teimlwn yn hynod o hapus, ag fwy nag unwaith daliais fy hun yn chwibanu. Wrth ddod yn ol ar hyd y llwybr, eisteddais ar y gamfa dan yr hen gelynen i wylio 'r coed yn ymddihatru o'u dillad baf. Ysgydwid y canghenau gan ddwylaw creulawn y dwyreinwynt, a phrudd oedd gweled deilen ar ol deilen yn gorfod gollwng ei gafael, ac yn cael ei rhwygo o'i hanfodd o fynwes ei mam. Yr oedd yr awyr ar bob tu yn ddu o ddail. Maes celanedd oedd y Cae Wrth Gefn y Ty, lle gwelwn fyrdd o ysgerbydau. Ond hyd yn oed yn angeu ni chai'r fyddin grin orphwysdra gan y gelyn. Fföent yn grynedig o'i flaen, a dawnsient ddawns marwolaeth hyd y sofl bigog. Finteioedd di-gartref! Diwedd-glo gresynus i deg hafddydd eu hoes ydoedd cael eu dedfrydu i'r fath drueni diorphwys a hyn. Ond pam y truanwn hwynt? Cyffelyb ydynt i fywydau dynion, a yrir ac a deflir yma ac acw o gryd hyd fedd. Yr ydym ninau yn wyrdd ar bren bodolaeth am enyd, ac yna chwythir ni gan ddwyreinwynt angeu i waered i'r cysgodion.

Ond dyna: fel 'rown i'n mynd i weyd gyneu, pan oeddwn yn dod 'nol o'r banc, pwy oedd yn dod i'm cyfarfod ym mwlch y clos ond John, Brynerfin, a Mr. Roberts y scwlmystyr (y *scwlyn*, ys dywedai y 'Cranc'). Northman yw Roberts, ag 'rwyn hoff rhyfeddol o gael ymgom ag ef; mae e'n gwbod cymaint, ac

mae dyn yn teimlo yn fwy rhydd a chartrefol yn ei gwmni na pha bae yn siarad a phregethwr neu offeiriad, gwedwch !

"Deio," meddai o draw, "yr oeddan ni'n gweled y'ch eisio chwi yn yr ysgol acw heddyw, ac fe ddeydodd un o'r brodyr :—

'Cnwc-yr-hwrdd aeth ffwrdd ar ffo.'"

"Oedd fater ddaw ef eto
gan rywun yno, wn i?" atebais innau.

Ar ol tipyn o ysmalio fel hyn, awd i'r ty, ac ymhen ychydig, trodd ein hymddiddan at lythyr diweddaf y 'Cranc.' "Dïan fechgyn," meddai Brynerfin, "rhaid cydnabod mai gwr o athrylith yw'r ysgrifenydd. Ond *yw* e'n cribo'n galed !"

"Ydy, mae o," meddai Roberts o'i led-orwedd ar y sciw, "ond 'rydw i'n credu mod i'n dallt ei gynllun o, ag un reit syml sy gyno fo hefyd. Fel hyn, yrwan :— gesyd yn y pair symiau cyfartal o wawdiaeth, gormodiaith, a synwyr cyffredin, a thafl ar eu gwyneb ddyrnaid o dermau Seisnig. Cymysga yr oll yn reit dda, nes bo gyno fo rywbeth tebyg i vitral (H^2SO^4) cymharol wan,—neu gryf, be ddeyda i. Yna, 'does gyno ond cymeryd ffiol, a lluchio ei llond ar draws pwy bynag a ddigwydda fod y nesaf ato fo. Ag yn siwr i chi, mae o'n medru ysu y croen, ond nid yw yn cyffwrdd a'r galon. Na, 'dydw i ddim yn leicio'i arddull o, yt ôl ; mae o'n rhy bethma."

DEIO.

LLYTHYR AT DEULU CNWCYRHWRDD.

Drwg genyf i 'Lythyr y Cranc' glwyfo cymaint ar deimladau Mali, ac ofnwyf os gwnewch sylwi cymaint ar ei syniadau y bydd iddo ymhyfrydu yn ei waith o ddiarhebu ei hunan a'i gydgreaduriaid. Yr wyf braidd yn sicr os llwydda i ergydio i dre unwaith eto yr ergydia yn drymach fyth y tro nesaf.

Yr wyf am alw eich sylw yn fyr at ei duchanion yn ei ail lythyr. Teimla yn hynod ddedwydd, meddai ef, wrth wrando'r pregethau yn y cwrdd mawr. Ond y mae swn arian y casgliad yn wenwyn i'w yspryd, ac oddiar deimlad o atgasrwydd tuag at swn arian y try i farnu amcan y pregethwr a'r bregeth, yr eglwys a'i threfniadau. Teg yw gofyn paham y gwenwyna'r casgliad ddylanwad y bregeth ar enaid y 'Cranc.' Yn ddiarwybod iddo ef ei hun y mae wedi ateb y cwestiwn. Yn gyntaf taer erfynia ar swyddogion eglwysi Cymru i roi'r casgliad ar ddechreu y cwrdd. Digon yw dweyd ei bod yn arferiad gyffredin yn mysg llinach y crancod ddod i'r cwrdd nid ar y dechreu, ond erbyn dechreu'r bregeth. Buasai o fendith mawr iddynt hwy felly pe buasai'r casgliad ar ddechreu yr oedfa, yna cawsent bregeth am ddim, cawsent gyfle i agor eu heneidiau i 'ddylanwadau mynydd y gweddnewidiad,' a chau eu pocedau rhag rhoi gollyngdod 'i grechwen eilunod temlau Mammon.' Yn ail, fe gyfaddefa yn hollol ddiofn y pleser a gaiff wrth dderbyn. Felly, nid oes eisiau dweyd rhagor ond adgofio'r 'Cranc' nad teg mesur dynoliaeth wrth linyn teimlad personol. Fy marn i yw fod y pedwar ugain allan o'r cant yn falch o'r cyfle a'r fraint o gyfranu eu rhodd at hyrwyddo'r efengyl, ac mai dim ond yr ugain, a chyfrif y 'Cranc' yn un, sydd fel arall.

Hen gwestiwn arall a goda yw cwestiwn y '*box hat*.' Da genym fod

y 'Cranc' wedi teimlo y dylanwad sydd gan allanolion megis gwisg ar deimlad dyn, ond yr ydym yn credu nad ydyw wedi edrych yn iawn ar y mater ychwaith. Da o beth oedd yr olygfa a roddodd o hono ei hun yn troi allan un diwrnod yn ei ddillad goreu; y mae yn ymddangos yn fwy o ddyn fan hono nac yn unrhyw ran arall o'i lythyr.

Gwelwch ef yn myned allan! Mor bwysig y teimla! Mor hawddgar ei yspryd! Mor haelionus ei deimlad! Gwelwch syndod y crwtyn bach a gafodd dair ceiniog ganddo am gario ei fag i'r orsaf pryd y disgwyliai ond dime fel arfer. Nid gwiw i ni ei ganlyn bob cam i'r capel, ond gwelwch ef yn awr wrth ddrws y capel. Cerdda yn mlaen yn feistrolgar braidd i'r set fawr ac eistedda i lawr yn fawreddog ac eto'n foneddigaidd a defosiynol. Gwrandawn ar y bregeth heb ofn casgliad heddyw ac y mae yn bleser edrych i'w wyneb. Yn wir, pwy ddiacon fedrai beidio siarad a dyn fel yna pe bai mewn siaced fer a throwsers o frethyn gwlad. Nid y wisg a ddenodd bobl y capel, ond yr awyrgylch o gryfder a phwysigrwydd a greodd y dillad newydd yn nheimlad Mr. Cranc. Pe bai yn ei ddillad gwaith tebyg yr eisteddai rywle ger y drws, ac y llerciai allan yn wylaidd heb roi cyfle i neb i siarad ag ef. Pwy sydd i'w beio, y diaconiaid, y Cranc, neu y dillad?

Tra cwyna yn arw fod dyn yn '*selfish*,' cydwelwn yn hollol ag ef os ydyw ymadael a phishyn tair ar derfyn cwrdd mawr yn ddigon o dramgwydd i'w enaid golli golwg ar wir amcan y genhadwri glywodd. Fe siarada am dano ei hun a chred fod ef yn debyg i ryw un arall, hyny yw i'r mwyafrif, oherwydd fod ei syniad am dano ei hun, fe debygwn, yn wael ac annheilwng, ac hefyd ei syniadau am eraili yr un fath. Tebygolrwydd dychmygol a feddylia ac yna nid oes angen i ni i ddilyn y syniad hw.

Yna newidia ymadrodd, ac 'os drwg cynt gwaeth wedyn. Beia bobl am beidio cael digon ar y byd yn ngwyneb gogoniant y nefoedd. Beth olyga? A fuasai yn dda ganddo wel'd teulu dyn yn troi yn hunanleiddiad? A garai ef weld dynion yn peidio cymeryd dyddordeb mewn natur ac yn eu gilydd. Os yw y byd hwn yn annioddefol anghyfforddus iddo, paham na thry ei wyneb tua'r wlad well os gwyr ble mae? Os meddylia ef mai'r nefoedd yw'r ddaear wedi ei chlirio o bob peth sydd yn gwrthweithio yn erbyn bywyd perffaith, ai nid ydyw John, Cwmrhedynen yn ceisio, wrth garthu'r beudy, wneud rhywbeth i ddwyn trefn ar wyneb y ddaear. Teimlaf nad hawdd esbonio y pwnc hwn a charem glywed syniad y 'Cranc' am y nefoedd cyn myned yn mhellach.

Eto fe gwyna yn arw nad yw pobl y wlad yn gwybod digon am Awstralia, India, Persia, a Pheru, ac nad yw eu syniad am y lleuad yr hyn a ddylai fod. Yr ydym yn cydweled yn hollol mai eangaf gwybodaeth dyn eangaf ei fywyd, ond nid gwybodaeth o'r ddaear, o'r haul a'r lleuad, o wahanol wledydd a ser yw hanfodion bywyd perffaith. Os mai niwl a gwlaw mân a wel dyn ar gopäu bryniau Olympus a Pharnassus, os mai blinder enaid a diffyg ffydd yw ffrwyth profiad eangach o'r byd, os mai chwilio am achos i gwyno fel y 'Cranc' wneir wrth gymharu ein gwlad a gwledydd eraill, os colli cariad os na cheir rinweddau i'w gynal, os mai hyn yw y bywyd eangach gwell genyf fi fywyd cul ei wybodaeth, a chariad yn gymhorth i wneud dyledswyddau isel fy nghalwedigaeth ddinod pe bai ond porthi moch yn nghoedwigoedd Servia.

Fy amcan yw, Mali, nid profi i'r 'Cranc' fod y werin yn ddeall a chredu rhywbeth uwchlaw y pethau bydol sydd yn ei hamgylchynu, ond profi i chwi yn gyntaf nad yw tuchanion y 'Cranc' yn deilwng o'r anrhydedd o dynu cwmwl dros eich gwyneb. Eto credaf, os gwnaiff Mr. Golygydd, ganiatau i ymgom deuluaidd fel hwn ymddangos, y gallaf rywbryd eto roddi prawfion cryfion i'r 'Cranc'

fod ffydd y Cymry yn seiliedig ar Dduwdod tu allan i bethau bychain bydol (os yw ef a minau yn deall yr un peth wrth 'bethau bydol,') ac fod ffydd a chrediniaeth yn sail i waith Deio a chwithau, nid yn unig yn eich gweddi a'ch ffyddlondeb yn y capel, ond yn eich amynedd, eich cariad, a'ch cydymdeimlad trylwyr a holl symudiadau'r byd sydd a'u tuedd i wella cyflwr dynolryw, a phan yr enwaf chwi, meddyliaf hefyd fod mwyafrif preswylwyr Ceredigion ac yr wyf yn sicr am Sir Benfro yn wir deilwng o'r un desgrifiad. Yr eiddoch,

CYFAILL O SIR BENFRO.

CREFYDD I "FEIBION LLAFUR."

Clywn gymaint am y 'Gweithiwr' a'r 'Dosbarth Gweithiol' heddyw, fel yr ydym bron laru arno, a theimlwn yn barod i ofyn am newid y gân. Weithiau cawn ddosbarth y bywyd esmwyth yn achwyn, ac yn dweyd eu bod hwythau yn gweithio yn ogystal a'r cymydogion sy mewn cyflwr mwy angenus. O'r goreu, bydd yn ddiwrnod dedwydd ar Brydain pan y bydd pob un sydd yn proffesu bod yn Gristion mor benderfynol i gyflawni ei ddyledswydd ag oedd ei Feistr gynt.

Ond gadawn lonydd i'r brodyr cyfoethog ychydigyn. Mae'r rhif luosocaf o'n cydwladwyr yn perthyn i'r dosbarth nad ynt gyfoethog. Mae llawer nad ydynt ond megys cymedrol yn eu hamgylchiadau, tra mae nid ychydig yn wir dlodion. Dywedir wrthym y daw pethau'n well yn y man. Ceisiwn gredu hyny. Uwchlaw pob peth, gwnawn a fedrwn i frysio'r 'amser da' yr ydys wedi canu cymaint a chanu mor hir ei fod 'yn dyfod.' A fedr y rhai sy'n llafurio'n galed am fywioliaeth wneuthur rhywbeth yn y cyfeiriad hwn?

Wel, gwyddom beth ddywed y rhai sydd am ddwyn oddiamgylch ddiwygiad politicaidd. Dywedant wrth y pleidebwyr fod pob pleideb—pob *vote*—yn cyfrif. Anogant hwy i beidio esgeuluso eu dyledswydd, er nad ymddengys ond peth bach. Nawr, y mae hynyna'n eithaf da, ac nid yw'r dyn sy'n grymial, a dim ond grymial, ar bethau fel y maent, ac heb wneuthur un cais i'w cael yn wahanol, nid yw o un lles i neb,—dim hyd y nod iddo ei hunan.

Ond gwyr y rhai hyny o honom sydd a'n gwallt yn britho, trwy brofiad, y cymer amser hir i newid deddf wladol, ac amser hwy fyth, fel rheol, i gael un lles oddiwrthi ar ol ei newid. Ond nid ydym yn digaloni oblegid hyny; eto, pan ddaw rhywun yn mlaen yn addaw'r milflwyddiant yr wythnos ar ol y nesaf, dim ond i ni bleidebu o'i du ef, nis gallwn ond gwenu. Gwyddom fod y byd yn fawr, ac yn gofyn ymdrech fawr i'w gael i'w le.

"Felly 'mlaen a ni yn wrol,
Yn mhob cyflwr is y nen;
Byth yn llwyddo, byth yn ceisio,
Gweithiwn nes daw'n gwaith i ben.

Mae ein hamgylchiadau'n well nag y byddent pe fyddai'n tadau heb ddilyn y rheol hono. Ceisiwn ninau wneuthur pethau'n well ar gyfer ein plant os gallwn.

Er mwyn llafurio'n hyderus, a gweithio i bwrpas, rhaid i ddyn wrth rywbeth i'w galonogi. Teimlwn ni, fel Undodiaid, fod y rhywbeth hwnw

genym. Y mae gan lawer eraill hefyd; ond adwaenwn lawer sydd hebddo. Mae miloedd a weithiant yn galed bob dydd am fywoliaeth, naill ai'n byw'n hollol yn y niwl gyda golwg ar yr hyn a gredant am y bywyd hwn, neu wedi gwneuthur eu meddyliau i fyny na chredent ddim! Y mae rhai o honom ni Undodiaid wedi mynd trwy brofiad o'r fath, er fe allai, mae'r rheswm mwyaf marwol yn erbyn crefydd a wyddom yw bywyd aml i un sy'n proffesu crefydd. Er gwaethaf geiriau teg, maent yn afaelgar a thrachwantus; ac nid yw ymddygiad felly yn cael ei gymeradwyo gan bobl uniawn a gonest. Carwn ddynion y gallwn gredu eu gair, ydynt yno pan y dylent fod, a dalant eu dyledion yn brydlawn, ac na wnant gam a neb os gallant help.

Yn awr, onid yw'n eglur os "carwn" ddynion o'r fath nad oes genym yr un esgus dros beidio gwneuthur cais i fod yn debyg iddynt? Nid yw mor hawdd ag yr ymddengys fodd bynag. Cyfyd pob math o anhawsderau ar ffordd y dyn sydd am wneuthur yr hyn sydd iawn i'w gymydogion. Ond beth wedi'n? A ryfeddwn ni am hyny? Nid yw'n hawdd iawn gwneuthur dim sydd yn werth ei wneuthur—gwneuthur cerfiad da mewn pren neu faen er engraifft, neu adeiladu peiriant *first class;* ond gellir eu gwneuthur, galeted ydynt, os gwyddom sut, os gweithiwn yn ddyfal wrthynt. Felly gyda'r gelfyddyd fwyaf oll, y gelfyddyd o fyw.

Mae gan bob un y siawns i fod yn gelfydd yn y llinell neillduol hon, er ei bod yn galetach i rai na'u gilydd. Edrychwn ar y mater fel hyn:—Tra mae'n fusnes hir a thrafferthus i ddwyn oddiamgylch ddiwygiadau cymdeithasol, gallwn ddechreu drwy ddiwygio tipyn bach arnom ein hunain ar unwaith. Y Duw y dylem gredu ynddo, nid Un sydd yn mhell yw. Mae ei ddeddfau yn ein cyfansoddiad ein hunain, yn debyg fel y maent yn y gafod wlaw neu borfa'r gwanwyn. Rhydd ei farnau bob dydd—nis oedir hwy hyd ddyfodol pell. Dwg pob peth a wnawn ei ganlyniad penodedig, da neu ddrwg, yn ol fel y bydd yr had a heuir. Y diogyn, os ymysgwyd ac os tyn ei hunan at ei gilydd a gweithio yn onest fel dyn, nis gall lai na enill ei wobr, a'r meddwyn, os try ei gefn ar y ddiod, a gwneuthur ei ddyledswydd at y rhai o'i gylch, bydd ei gartref yn sicr yn fwy dedwydd iddynt hwy ac yntau. Nad beth ein bai cawn help Duw i'w wella os ceisiwn ef. Credai Iesu Grist, yr hwn oedd hefyd yn un o feibion llafur, yn Nuw fel Tad, a chafodd heddwch wrth hyny. Gallwn ninau wneuthur yr un peth os ceisiwn fyw fel y dylai meibion y Tad goreu wneuthur. Dyna'r pwnc pwysig.

Nid oes eisieu i ni ddysgu ein hunain â phethau hwnt i'n gallu. Yn sicr nid oes eisieu i ni ddychrynu ein hunain ag ofn y Tad hwnw sydd yn unig yn dymuno i ni wneuthur yn iawn, a'r Hwn sydd yn wastad yn rhoi ei help i'r rhai a geisiant hyny. Os byddwn ond yn unig yn byw yn iawn, ni gawn y bydd ein cred yn iawn fel y byddwn yn myned yn mlaen. Dichon na fydd yn un hir, ond bydd yn gryf—

Os llwm ein cyflwr yn y byd,
  Mae'r gwaith o'n blaen ni'n fawr;
Mewn ffydd dilynwn Ef o hyd
  Fu'n llwm tra'n rhodio'r llawr.

Yn ffyddlawn byddwn i bob iawn,
  Er gormes byd a'i drais;
Yn ngolwg Duw gwaith mawr a wnawn
  Os gwnawn ein goreu'n gais.

PRIODASAU.

TACHWEDD 3, yn Alltyplaca, gan y gweinidog, yn ngwydd y cofrestrydd, Mr. Evan Davies, Aberceiliog â Miss Gwenllian Thomas, Inglis Cottage, Dymuniadau goreu i'r ddau.

TACHWEDD 14, yn Alltyplaca, gan y gweinidog, yn ngwydd y cofrestrydd, Mr. David Jones, Blaenaugwenog, â Miss Anne Evans, Lôn.

MARWGOFION.

HYDREF 7, yn 68 mlwydd oed, Mary Owen, anwyl briod Henry Owen, Tycam, Llanfihangel Ystrad. Dioddefodd yr ymadawedig gystudd caled am amser maith. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd a phregethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan Ficer Ystrad. Gadawodd briod, amryw o wyrion, ac un chwaer i alaru ar ei hol. Nodded y nef fyddo drostynt oll.

HYDREF 26, yn 68 mlwydd oed, Lewis Lewis, Cynon House, Clydach Vale. Y dydd Iau dilynol daeth tyrfa fawr yn nghyd a chladdwyd ei weddillion yn y gladdfa gyhoeddus, yn Lledr-ddu. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. G. Rees, Bridgend ; J. Park Davies, Pontypridd, ac E. R. Dennis, Pentre. Yr oedd Mr. Lewis yn gymydog parchus ac yn aelod ffyddlawn yn Methlehem, Clydach Vale. Caffed y weddw a'r plant gysur oddiwrth ei fywyd da a chymorth i ddilyn ei gamrau. Bydd yn golled fawr i eglwys Clydach Vale ar ol y fath aelod da.

HYDREF 26, yn 59 oed, Mr. David Jones, Bronheulog, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn un o drefwyr mwyaf adnabyddus Llandyssul, a thrwy ei gysylltiadau masnachol fel oriadurwr, yr oedd iddo gylch helaeth o adnabyddiaeth ac o gyfeillion. Bu yn llwyddianus iawn yn ei fasnach, nid trwy ddawn ymadrodd, ond ar gyfrif ei onestrwydd ac unplygrwydd ei gymeriad. Yr oedd yn ddarllenwr helaeth, a ffurfiasai ei farn ei hun ar bynciau yn unol a'i ddealltwriaeth, a chredwn yr ymdrechai weithredu bob amser yn ol y goleuni oedd ganddo. Ychydig flynyddoedd yn ol, pan dorodd ei iechyd i lawr ymneillduodd ef a'i briod o'i alwedigaeth yr hon gymerwyd i fyny gan ei fab. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Pantdefaid, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y Parch. T. Arthur Thomas ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd mewn hiraeth ar ei ol weddw, mab, ac wyr, heblaw perthynasau ereill. Nodded y nef fyddo drostynt oll.

TACHWEDD 6, yn 8 mis oed, Jenkin Trevor, anwyl blentyn Lewis a Jane Evans, Dolybont. Claddwyd yn mynwent Abermeurig, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. John Evans (T.C.), Lewis Williams a John Davies.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae yn bryd cychwyn ar y gwaith ar gyfer yr arholiad blynyddol. Mae y gwersi i'r Safon gyntaf ar tudalennau 4 a 5 o'r llyfr gyhoeddwyd y llynedd, â'r gwersi i'r Ail Safon o'r tudalen 12 hyd yr 18. Mae rhai ysgolion wedi danfon am y llyfrau, ac wedi dechreu ar y gwaith eisoes, a gobeithio y bydd i'r lleill wneyd hyny yn fuan. Y pris ydyw 1g. yr un ; gyda'r post 1½g. Anfoner at y Parch. L. Williams, Bedlwyn, Felinfach, S.O.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF.—Cynhaliwyd yr uchod yn Alltyplaca, Capel-y-Bryn a Capel-y-Cwm, ar ddyddiau Llun, Mawrth a Mercher, y 19, 20 a'r 21 o Hydref. Y Pregethwr yn y tri lle oedd y Parch. E. O. Jenkins, yr hwn a roddodd foddlonrwydd cyffredinol. Yr oedd y cynulliadau cystal ag y gallesid disgwyl ; a'r casgliadau yn foddhaol.

LLWYNRHYDOWEN A CHAPEL-Y-FADFA. — Cynhaliwyd cyfarfodydd Diolchgarwch am y cynhauaf yn y lleoedd uchod, nosau Iau a Gwener, Hydref 22 a 23ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Lewis Williams, Rhydygwin ac E. O. Jenkins.

PANTDEFAID A'R GRAIG.—Sul, Llun a Mawrth, Tachwedd 1, 2 a 3 cynhaliwyd y cyfarfodydd diolchgarwch yma. Cafwyd cynulliadau lluosog a phregethwyd yn dderbyniol iawn gan y Parchn. Lewis Williams, Rhydygwin ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.—Cynhaliodd yr eglwysi yma eu cyrddau diolchgarwch nos Fercher a nos Iau, Tachwedd 4ydd a'r 5ed. Pregethwyd yn y ddau le gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Cafwyd cynulliadau da a phregethau da. Gwnaed casgliad yn Nghiliau tuag at y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.

YMWELIAD.—Pan ar fyned i'r wasg derbyniasom ohebiaeth oddiwrth y Gymdeithas Undodaidd Llundain, fod yn mwriad Llywydd y Gymdeithas hono, John Harrison, Ysw., yn nghyd a chymrychiolwyr eraill, i dalu ymweliad a Chymru tua mis Chwefror nesaf. Dymunant weled Gymanfa fawr o Undodiaid Cymru wedi ymgynull i'r un fan ; neu os bydd hyny yn anymarferol i gael Cymanfa yn Sir Forganwg ac un arall yn Sir Aberteifi. Gan nad pa gynllun fabwysiedr, dyma gyfle ardderchog i ni alw yn nghyd wahanol adranau y fyddin Undodaidd, a byddai cynulliad o'r fath yn sicr o ddwyn ysprydiaeth newydd i'n mysg. Gydag ond ychydig o gydweithrediad a brwdfryded y mae yn bosibl i ni gael un o'r cyfarfodydd goreu. Gwnawn alw yn nghyd yn fuan bwyllgor arbenig o'n Cymdeithas er ymdrin a'r mater.

TAFT YN BRIFLYWYDD. — Er gwaethaf llu mawr iawn y mae William Howard Taft, wedi ei ethol yn Briflywydd Unol Dalaethau America, am 1909-13. Y cyhuddiad gwaethaf ddygid yn ei erbyn oedd ei fod yn Undodwr. Dywedodd Roosevelt yn gall ar y mater—"y mae genych hawl i wybod pa un a yw'r dyn a geisia eich pleidlais yn ddyn o fywyd glân ac uniawn, yn anrhydeddus yn ei drafodaeth a'i gyd-ddynion, yn meddu'r cymwysderau priodol i gyflawni gwaith y swydd am yr hon y mae'n ymgeisydd, ond nid oes genych un hawl i ymyryd â materion sydd yn gorwedd yn hollol cydrhyngddo ef a'i Grewr." Cafodd Taft fwyrif anrhydeddus, y mwyaf o neb erioed ond Roosevelt, a hyny er ei fod yn Undodwr. Cofier nad efe yw'r Undodwr cyntaf sydd wedi bod yn Briflywydd, y mae yna saith wedi dal y swydd o'i flaen, a phump o'r saith yn aelodau gweithgar o eglwysi Undodaidd.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH,

FLORIST AND SEEDSMAN, . .

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Ben Evans & Co's Series of Specimen Furnished Rooms

afford Practical Assistance in the task of Furniture Selecting. . .

The disappointment so frequently felt at the incongruities, which are practically inevitable when the several items are bought 'piecemeal,' is avoided and a great deal of time is saved by seeing the various articles placed in position at the time of purchase. . . . . .

BEN EVANS & Co., Ltd.

'THE HOUSE FOR QUALITY.'

Cabinet Furniture Dept.,
Caer Street,

Swansea.

Telegrams—Evans, Swansea. Telephone: No. 28.